

DINASYDDIAETH DDIGIDOL A'R CYFRYNGAU



PAM MAE'N BWYSIG

Rydym yn byw mewn byd sy'n llawn technoleg, felly mae'n rhaid i ni ei chofleidio yn hytrach na cheisio ei hosgoi. Mae pobl bellach yn defnyddio ffonau symudol, cyfrifiaduron ac ati bob dydd, ac mae'n bwysig ein bod yn gwybod sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel a dysgu ei defnyddio pan fo angen, yn hytrach na gadael iddi wneud popeth drosom.

Y MATERION

Mae pobl yn defnyddio apiau fel Shein a Temu yn fwy na marchnadoedd lleol, siopau, grwpiau, sêls cist car ac ati. Gall sefydliadau ddefnyddio'r apiau hyn oherwydd eu bod yn rhatach, o ystyried y cyfyngiadau ariannol llym sydd arnynt.

Mae datblygiadau digidol yn symud yn rhy gyflym

Ofn peidio â chael eu clywed

Diffyg adnoddau a chyfleoedd

Diffyg gwerthfawrogiad o'r cyfryngau ac o leisiau pobl ifanc

Peryglon ar-lein

BETH DYWEDODD POBL IFANC?

Problem arall yw bod pobl yn defnyddio technoleg mewn ffyrdd amhriodol, er enghraifft drwy ddibynnu ar AI ar gyfer cwestiynau syml, creu delweddau, cynlluniau gweithdai, posterï ac ati.

Rydym hefyd yn dechrau gweld staff mewn grwpiau'n gwneud hyn, sy'n dangos gorddibyniaeth a diffyg creadigrwydd wrth ddefnyddio'r adnoddau a'r deunyddiau sydd gennym eisoes. Felly, ai rhwydweithio a chydweithio i gynhyrchu rhagor o syniadau fyddai'r ateb?

BETH RYDYM AM I'R RHAI SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD

Addysg orfodol mewn dinasyddiaeth ddigidol

Gwella systemau rheoleiddio er mwyn gallu lleisio barn

Sicrhau bod y rhai sydd mewn grym yn atebol

Gweithredu diogelwch a moeseg yn well

CYNLLUN GWEITHREDU

Sefydliadau i gynnal sesiynau a darparu adnoddau am ddiogelwch ar-lein.

Ysgolion i gynnal sesiynau gorfodol ar ddinasyddiaeth ddigidol yn ystod amser gwersi – Addysg Bersonol a Chymdeithasol, gwasanaethau ysgol a chyfrifiadura.

Cynnig cyfleoedd i ymgyrchu a chreu cynnwys gyda phobl ifanc am faterion penodol neu ddiogelwch digidol.

Caniatáu i bobl ifanc gydweithio neu leisio barn wrth ddatblygu adnoddau, cyfryngau ac ymgyrchoedd ar-lein, er mwyn sicrhau profiad mwy addas i bobl ifanc.